CYNGOR
CYMUNED
LLANBERIS A NANT PERIS

| Cofnodion cyfarfod 15fed o Ionawr 2025 a gynhaliwyd yn y Ganolfan am 7 yn yr hwyr | | |
|---|---|---|
| **PRESENNOL** | | |
| **Bethan Holding** | **Iwan Harding** | |
| **Louise Price** | **Helen Sharp** | |
| **Emlyn Baylis** | **Iola Owen** | |
| **Kevin Jones** | **Llinos Pritchard** | |
| **Kim Jones** | **Trystan Thomas** | |
| **1.** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
| | Agorwyd y cyfarfod yn ffurfiol gan yr Is-Gadeirydd Bethan Holding. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y canlynol, Cynghorydd Rhys ap Gwilym, Cynghorydd Gwilym Evans. Derbyniwyd ymddiswyddiad gan Ms Nia Jones. Cyflwynwyd diolchiadau'r Cyngor iddi am ei gwaith. Cyflwynwyd Cydymdeimladau'r Cyngor i'r Cynghorydd Iwan Harding am ei brofedigaeth o golli ei Nain yn ddiweddar. | **CLERC** |
| **1.1** | Ni chafwyd cyfranogiad gan y cyhoedd. | |
| **1.2** | Prosiect Cymunedol - (Celf wedi ei wneud gan ddeunydd sydd wedi ei ailgylchu roedd y Cyngor yn gefnogol ond bod cwestiynau yn codi fel lleoliad a chyfrifoldeb am y gelf. Ar hyn y byd nid yw'r Cyngor wedi gallu cysylltu â'r ymgeisydd. | **Clerc** |
| **1.5** | Hyrwyddo Gwasanaeth Cynllunio Cydnerth sy'n Perfformio'n dda. Nid oedd y Cyngor yn teimlo eu bod yn ddigon cymwys i ymateb i'r ymgynghoriad yma. | |
| **2.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| | Dim | |
| **3.0** | **CADARNHAU GWARIANT A CHYFLWYNO ADRODDIAD ARIANNOL** | |
| **3.1** | Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol mis Rhagfyr 2024 a'u derbyn. | |
| **3.2** | Cyflwynwyd cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025-2026. Roedd y Clerc wedi rhagweld byddai angen 4% o godiad ychydig uwch na'r chwyddiant disgwyliedig. Derbyniwyd 4% ar y praesept. Golyga hyn bod y Praesept yn codi i £41,184.00 o £39,600. | |
| **4.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| **4.1** | Cadarnhawyd cofnodion mis Rhagfyr 2024. | |
| **4.2** | Bin sbwriel Cae Chware Lan Llyn. Penderfynwyd prynu a gosod bin fel Cyngor ac yn trefnu cael ei wagio gan Wynedd; trefniadau wedi ei gwneud gyda'r swyddog Priodol. | **CLERC** |
| **4.3** | Cerflun Stryd/Coffa Chwarelwyr - mae gwrthwynebiad wedi ei dderbyn gan Dwr Cymru i'r lleoliad; bellach mae cynllun wedi ei ddiwygio wedi ei gyflwyno a disgwylir ymateb i hwn gan yr adain Gynllunio. | **CLERC** |

| | | |
|---|---|---|
| **4.4** | Panel HBO - Panel wedi cyfarfod ac wedi mynd trwy'r ceisiadau. Roedd pob cais yn gymwys ond bod angen ychydig o wybodaeth bellach cyn gallu cael cyflwyno argymhellion i'r Cyngor. Disgwylir gwneud hyn yn y Cyfarfod nesaf wedi i'r wybodaeth ychwanegol gael ei dderbyn. Cafwyd y ceisiadau canlynol: Clwb Pêl droed Llanberis gan Ryan James The Chilled Mind Prosiect Llechiffon Prosiect Croeso Dyffryn Peris Grŵp Datblygu Llanberis Sant Peris, Nant Peris Dafydd Whiteside Thomas | **CLERC** |
| **4.5** | Campfa Awyr Agored - cyflwynwyd dau amcan bris oddi wrth ddau gontractwr. Penderfynwyd ar y Contractwr oedd yn fwy lleol i Lanberis a hefyd roedd gwaith y cwmni yma i'w weld mewn pentref cyfagos. Roedd y Cyngor yn gytûn ar benodi Playquest o'r Fflint. | **CLERC** |
| **4.7** | Is-ddeddfau - dim datblygiad wedi bod ar y mater hwn hyd yma. Penderfynwyd byddai yn well cael grŵp bychan i ymdrin â'r mater. | **CLERC/BH** |
| **4.8** | Waliau fyny i'r bwlch - dim ymateb cadarnhaol wedi bod oddi wrth Wynedd na'r Parc. Mae'r mater wedi ei godi gan y Cynghorydd Sir gydag aelod o'r Parc Cenedlaethol. Mae Cyngor Gwynedd wedi addo anfon arolygydd ffordd i asesu'r sefyllfa ond nid oes adroddiad wedi dod i law. | **GTE** |
| **4.9** | Parcio - roedd Gwynedd wedi ymgynghori ar godi costau'r meysydd parcio i 40%. Roedd y Cyngor Cymuned yn fodlon ar hwn ond roeddynt hefyd angen gwybodaeth os fyddai yn bosib newid meysydd aros cyfnod byr i aros cyfnod hir dros y gaeaf. Hyd yma nid oes ymateb wedi bod ŷd yma. | |
| **4.10** | Gwersylla mewn mannau anaddas - dim ymateb wedi bod gan Cadw ond rydym wedi erbyn enw a chysylltiad swyddog lleol. | |
| **5.0** | **PRIFFYRDD A LLWYBRAU CYHOEDDUS** | |
| **5.1** | Mae person lleol wedi dweud ei fod yn fodlon i wneud arolygiad o'r llwybrau ar ran y Cyngor. Gobeithir cael gwybodaeth ganddo faes o law. | **CLERC** |
| **5.2** | Biniau Halen - derbyniwyd y wybodaeth isod: *Dwi wedi bod yn trafod gyda pheirianwyr ardal Meirionnydd a Dwyfor y ceisiadau am finiau halen o'r newydd sydd wedi dod mewn yn dilyn y cyfnod tywydd gaeafol diwethaf. Dydi'r gwasanaeth heb fod yn darparu biniau o'r newydd ers peth amser oherwydd y niferoedd sydd eisoes ar ei'n rhwydwaith ffyrdd sirol. Mae'r ddwy ardal arall wedi darparu rhai ar gost gychwynnol y Cyngor Cymuned berthnasol gan ymrwymo i'w lenwi wedyn, ond does dim trefn ffurfiol mewn lle i sicrhau cysondeb. O ganlyniad rydym wedi ymrwymo i ddod at ei'n gilydd i gael trefnu cyson o ddelio gyda cheisiadau fydd yn weithredol dros Wynedd. Felly byddwn ddim yn ychwanegu at y 353 bin halen sydd eisoes allan yn Arfon ac* | **CLERC** |

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS A NANT PERIS

| | | |
|---|---|---|
| | *sydd yn cymryd 88 tunnell o halen i'w ail-lenwi i gyd. Ond, mae bosib ail-leoli biniau sydd ddim yn cael defnydd os ydych yn dymuno. Mae ei'n weithwyr dal yn ail-lenwi biniau halen ers y cyfnod rhewllyd diweddar gan nodi os ydynt yn wag, hanner llawn neu llawn wrth fynd. Mi fedraf rannu'r wybodaeth gyda chi unwaith mae ardal Llanberis wedi ei gwblhau gan amlygu unrhyw finiau sydd ddim yn cael llawer o ddefnydd a bod sgôp i'w ail-leoli i chi. Os mae'r Cyngor Cymuned yn dymuno derbyn y wybodaeth ar gyfer trafod opsiynau gad wybod plîs.* | |
| **5.3** | Mae pont Meibion sydd ar lwybr cyhoeddus wedi derbyn difrod oherwydd y storm ac oherwydd hyn mae rhan yma o'r llwybr wedi ei gau. Yn anffodus mae cerddwyr yn awyddu'r rhybuddion ac yn eu defnyddio yn lle mynd y ffordd arall. Nid yw hyn yn ddiogel, y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd gyda'r pryder yma. | |
| **6.0** | **Y FYNWENT** | |
| **6.1** | Nid yw pwyllgor wedi cyfarfod er mwyn ystyried rheolau'r fynwent. Angen i'r cadeirydd drefnu dyddiad. Gobeithir trefnu cyfarfod cyn cyfarfod misol Chwefror y Cyngor | **CLERC** |
| **7.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| **7.1** | Rhif Cais: C24/0945/15/LL Lleoliad: 4 Stryd Y Dŵr, Llanberis, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4EP Bwriad Codi modurdy domestig gyda storfa ynghyd ag addasu man parcio/troi presennol **GWRTHWYNEBU:** Nid yw Cyngor yn hapus a'r bwriad yma. Nid oes ffordd benodol i gyrraedd yr ardal, dim ond llwybr cerbydol anffurfiol i ychydig o fodurdai ac un eiddo arall. Yn anffodus mae'r defnydd ar yr ardal yma wedi cynyddu a bellach mae wedi erydu'r ffordd ac mae tystiolaeth bod dŵr yn aros ar y wyneb ac mae gwybodaeth wedi dod i lawr bod potensial i lifogydd; gall hyn gael effaith ar y tai teras. | |
| **7.2** | Rhif Cais No.: C24/1110/15/CC Lleoliad : Storfa Glyn Rhonwy Stâd Glyn Rhonwy, Llanberis, Gwynedd, LL55 4EL Bwriad : Cais i dorri coeden o fewn ardal sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed **DIM GWRTHWYNEBIAD** | |
| **7.3** | Rhif Cais.: C24/1100/15/LL Lleoliad: Compton House Stryd Fawr, Llanberis, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4EU Bwriad:: Newid defnydd 5 fflat preswyl (C3) i 5 uned llety gwyliau tymor byr (C6) GWRTHWYNEBIAD Roedd y Cyngor yn unfrydol i wrthwynebu'r cais. Mae sawl gwrthwynebiad llafar wedi ei dderbyn oddi wrth drigolion y pentref. Mae'r adeilad ar hyn o bryd yn adeilad ar gyfer rhentu cyfnod hir sydd yn helpu gyda rhoi cartrefi i bobl leol. Mae newid y safle i adeilad sydd yn cynnig fflatiau lletygarwch yn sicrhau effaith andwyol i'r Gymuned yn sgil yr iaith Gymraeg, cartrefi i bobl leoli ac i niferoedd disgyblion o fewn yr ysgol Gynradd. Mae Llanberis a Nant Peris gyda chyfran uchel o dai a | |

| | | |
|---|---|---|
| | fflatiau air B & Bs a thai Haf. Er bod nifer yn cael ei rhoi o fewn y dogfennau nid y nifer yma yw'r niferoedd cywir oherwydd mae cynifer mawr o'r tai heb eu cofrestru fel tai haf ac yn y blaen. Nid yw bobl leol yn gallu aros o fewn eu cymunedau i godi teuluoedd oherwydd nid oes tai fforddiadwy ar gael. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ymwelwyr yn cyfrannu i'r economi leol ond mae hefyd yn gallu effeithio ar yr ardal leol. Mae gorddarpariaeth o dai haf o fewn y pentref. Bydd y datblygiad yma yn cael effaith ar drafnidiaeth a pharcio o fewn y pentref hefyd. Mae'r Cyngor yn cefnogi safiad y Cynghorydd Sir Gwily Evans a hefyd Cylch yr Iaith. | |
| **7.4** | Cais Rhif: **NP3/15/227C**<br>Amrywio Amod 2 ynghlwm i Ganiatad Cynllunio NP3/15/227B dyddiedig 19/01/2024 am newidiadau i'r cynlluniau a ganiatawyd yn cynnwys diwygio dyluniad/trefniadau mynediad mewnol<br>Cae Ty'n Twll, Nant Peris. LL55 4UL<br>**DIM GWRTHWYNEBIAD** | |
| **8.0** | **GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL** | |
| **8.1** | Trafodwyd Hwyl yr Haf a phenderfynwyd na fyddai'r gweithgaredd yma yn mynd yn ei flaen oherwydd nid oedd digon o gefnogaeth ar gyfer ei gynnal. | |
| **9.0** | **ADRODDIADAU CYRFF ALLANOL** | |
| | Tai Bro yr Wyddfa - roedd y Cynghorydd Beth Holding wedi bod yn cynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfod diweddar, rhoddwyd adroddiad lafar ar y digwyddiad ganddi. Rhoddwyd cefndir i'r prosiect ynglŷn ag ychydig o wybodaeth ynglŷn â beth oedd yn bosib i Gynghorau Cymuned i wneud er mwyn cyflwyno tai fforddiadwy o fewn y Gymuned. | |
| | Daeth y cyfarfod i ben am 9 yn y r hwyr. | |
| **Llofnod:** | | **Dyddiad :** |